



Amcan Llesiant 14

Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Gweithredu a Mesur	Targed
A Safonau'r Iaith Gymraeg		
1	Byddwn yn paratoi Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn manylu ar y camau a gymerir i gydymffurfio â Safonau Cymraeg	Mehafin 2017
2	Byddwn yn datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg integredig ar gyfer ein staff	Mawrth 2018
3	Byddwn yn gweithredu ar ganfyddiadau adolygiad gwasanaeth cyfieithu'r Gymraeg ac yn darparu gwasanaeth effeithlon i'r Cyngor yn ogystal â phartneriaid.	Mawrth 2018
4	Er mwyn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau da, byddwn yn cyflwyno Asesiad Effaith integredig sy'n cyfuno gofynion Cydraddoldeb, Cymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Mawrth 2018
B Strategaeth Hybu'r iaith Gymraeg		
1	Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad Y Gymraeg yn Sir Gâr, a gytunwyd ym mis Ebrill 2014	Mawrth 2018
2	Byddwn yn cynyddu niferoedd sy'n caffael sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo iaith yn y cartref	Mawrth 2021
3	Byddwn yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly ddefnydd y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd, ac annog a chefnogi sefydliadau'r sir i wneud y Gymraeg yn gynyddol yn gyfrwng naturiol eu gwasanaethau	Mawrth 2021
4	Byddwn yn cymryd camau pwrpasol i effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth gan geisio denu'n pobl ifanc i sefydlu neu i ail-ymsefydlu yn y sir fel na gollir y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a enillir drwy'r drefn addysg. Yn ogystal, gwneud ymdrechion sylweddol i gymathu mewnfudwyr a sicrhau nad ydy datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg	Mawrth 2021
5	Byddwn yn targedu ardaloedd daearyddol penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny	Mawrth 2021
6	Byddwn yn marchnata a hyrwyddo'r iaith. Codi statws y Gymraeg gan gynnwys manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog. A thrwy godi ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, denu mwy o drigolion y sir i gaffael yr iaith	Mawrth 2021
C Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg		
1	Byddwn yn gweithredu cynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion er budd pob dysgwr yn Sir Gâr. <i>(Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 3)</i>	Mawrth 2020

Cyf	Gweithredu a Mesur	Targed
2	Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion i gael asesiad athro/athrawes yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (EDU / 006i) (Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 3) (Canlyniad 2016/17 - 50.5% - Blwyddyn Academaidd 15/16)	51.0%
3	Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion i gael asesiad athro/ athrawes yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (EDU / 006ii) (Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 3) (Canlyniad 2016/17 - 42.2% - Blwyddyn Academaidd 15/16)	42.5%
4	Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig gofal plant gwell ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a chymorth ariannol / adnoddau, yn ogystal â chynyddu'r nifer o warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd a dargedir yn y Sir. (Gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 1 a 5)	Mawrth 2018
D Diwylliant a Threftadaeth		
1	Byddwn yn datblygu prosiect digidol 'Stordy Digidol' i hyrwyddo iechyd meddwl gwell ar y cyd â hyrwyddo casgliadau treftadaeth Sir Gâr. (Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 8)	Mawrth 2018
2	Byddwn yn gweithio tuag at gael cymeradwyaeth i'r cynllun pum mlynedd ar gyfer ein Amgueddfeydd ac fel rhan o'r cynllun hwnnw datblygu cysyniad canolfan casgliadau ar gyfer y Sir	Mawrth 2018
3	Byddwn yn dechrau gweithredu ein cynllun Datblygu Llyfrgelloedd 2017 - 2022 ac fel rhan o'r cynllun hwnnw, cyflwynwch y gwasanaeth llyfrgell symudol newydd a chynllunio i gartrefi casgliad Archif Sir Gâr mewn llety priodol yn llyfrgell Caerfyrddin. (Gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 11)	Mawrth 2018